



Eich cyf/Your ref: KS/PO/588/2025

Y Cadeirydd Mike Hedges AS
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

17 Tachwedd 2025

Annwyl Mike,

Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) – Adroddiad WCPP

Mae'n bleser gennyf roi gwybod i chi fod adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) *“Ffactorau llwyddiant ar gyfer contractio a dyfarnu masnachfreintiau bysiau yng Nghymru”* wedi'i gyhoeddi, ac mae ar gael drwy'r ddolen ganlynol, ynghyd â dogfennau cysylltiedig:

[Dull arloesol o ymdrin â thystiolaeth i gefnogi proses bontio i fasnachfreinio bysiau yng Nghymru | WCPP](#)

Mae'r adroddiad, a gynhyrchwyd ar y cyd â WCPP, fy swyddogion a Trafnidiaeth Cymru, wedi croesawu cyfraniad amrywiaeth o arbenigwyr ac awdurdodau masnachfreinio ledled y byd, y mae pob un ohonynt wedi llwyddo i weithredu a chynnal modelau tebyg i'r model y mae'r Bil yn ei gynnig.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r adroddiad yn dwyn ynghyd ganfyddiadau pedwar darn gwyntyllu a ysgrifennwyd gan arbenigwyr ynghyd â mewnwleidiad o wyth sesiwn cyflwyno tystiolaeth a gynhaliwyd rhwng mis Mawrth a mis Mai 2025, yn cynnwys awdurdodau trafnidiaeth o Jersey, Iwerddon, Norwy, Sweden, Awstralia a Singapore, a dau achos yn y DU (Dinas-ranbarth Lerpwl, ac Awdurdod Cyfun Swydd Gaergrawnt a Peterborough), ynghyd ag arbenigwyr academiaidd blaenllaw.

Mae'r prosiect hwn wedi bod yn amhrisiadwy wrth lywio rhai o'r datblygiadau polisi y tu ôl i'r Bil ac mae'n parhau i hysbysu a llywio cynlluniau ar gyfer gweithredu, megis gwaith datblygu contractau a gwaith datblygu rhai o'r rheoliadau a'r canllawiau.

Rwy'n gobeithio y byddwch chi, a gweddill y Pwyllgor, yn mwynhau darllen yr adroddiad.

Hoffwn ddiolch unwaith eto i'r Pwyllgor am eu gwaith ac am graffu ar y Bil. Mae eich gwaith archwilio a'ch her yn hanfodol i lunio deddfwriaeth sydd wirioneddol yn gwasanaethu er budd y cyhoedd.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Ken Skates', with a stylized flourish extending to the right.

Ken Skates AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for Transport and North Wales